

2018 Rhif (Cy. )

2018 No. (W. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r  
A466 (Cylchfan Highbeeche, Cas-  
gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd  
Cerbydau Dros Dro) 2018

The A48 and A466 Trunk Roads  
(Highbeeche Roundabout,  
Chepstow, Monmouthshire)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles) Order 2018

*Gwnaed* 1 Mai 2018  
*Yn dod i rym* 7 Mai 2018

*Made* 1 May 2018  
*Coming into force* 7 May 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau o Gefnffyrdd yr A48 a'r A466 Llundain i Abergwaun, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A466 (Cylchfan Highbeeche, Cas-gwent, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 7 Mai 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw Cefnffyrdd yr A48 a'r A466 Llundain i Abergwaun fel a ganlyn;

The Welsh Ministers, as traffic authority for the lengths of the A48 and A466 London to Fishguard Trunk Roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited because of works proposed on or near the roads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A48 and A466 Trunk Roads (Highbeeche Roundabout, Chepstow, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 7 May 2018.

2. In this Order:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

---

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

---

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I.1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- i. y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 15 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd Bulwark Road hyd at bwynt 40 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Highbeech;
- ii. y darn o gerbyttfordd tua'r de yr A466 sy'n ymestyn o bwynt 37 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Highbeech hyd at bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 7 Mai 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd.

### **Cymhwyso**

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Mai 2018

*Richard Morgan*  
Pennaeth Safonau Rheoli Asedau  
Llywodraeth Cymru

"the trunk roads" ("*y cefnffyrdd*") means the A48 and A466 London to Fishguard Trunk Roads as follows;

- i. the length of the A48 westbound carriageway that extends from a point 15 metres west of the centre point of the Bulwark Road Junction to a point 40 metres northeast of the centre point of Highbeech Roundabout;
- ii. the length of the A466 southbound carriageway that extends from a point 37 metres southeast of the centre point of Highbeech Roundabout to a point 75 metres southeast of the centre point of that roundabout.

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means that period commencing at 20:00 hours on 7 May 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed in the lengths of the trunk roads.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

1 May 2018

*Richard Morgan*  
Head of Asset Management Standards  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A48 A'R  
A466 (CYLCHFAN HIGHBEECH, CAS-GWENT,  
SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU DROS  
DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A48 a'r A466, neu gerllaw iddynt, wrth Gylchfan Highbeech, Cas-gwent, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

- i. gwahardd pob cerbyd sy'n teithio tua'r gorllewin rhag mynd ar y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A48 sy'n ymestyn o bwynt 15 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd Bulwark Road hyd at bwynt 40 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Highbeech.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar hyd Bulwark Road, Thornwell Road a thua'r gogledd ar yr A466 Ffordd Gyswllt Dyffryn Gwy.

Bydd mynediad i eiddo lleol ar hyd yr A48 Newport Road o fewn hyd a lled y ffordd sydd ar gau ar gael oddi ar Gylchfan Highbeech neu ar hyd y llwybr dargyfeirio uchod.

- ii. gwahardd pob cerbyd sy'n teithio tua'r de rhag mynd ar y darn o gerbyttfordd tua'r de yr A466 sy'n ymestyn o bwynt 37 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Highbeech hyd at bwynt 75 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno.

Y llwybr arall ar gyfer yr holl draffig sy'n dymuno ymadael â'r gylchfan tua'r de fydd mynd tua'r dwyrain ar yr A48 Newport Road a pharhau ar hyd y llwybr dargyfeirio uchod.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos rhwng 20:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch o 7 Mai 2018 hyd 11 Mai 2018, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

**THE A48 AND A466 TRUNK ROADS  
(HIGHBEECH ROUNDABOUT, CHEPSTOW,  
MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A48 and A466 trunk roads at Highbeech Roundabout, Chepstow, Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

- i. prohibit all westbound vehicles from proceeding on the length of the A48 westbound carriageway that extends from a point 15 metres west of the centre point of the Bulwark Road Junction to a point 40 metres northeast of the centre point of Highbeech Roundabout.

The alternative route for westbound traffic will be via Bulwark Road, Thornwell Road and northbound on the A466 Wye Valley Link Road.

Access to local premises along the A48 Newport Road within the extents of the road closure will be available from Highbeech roundabout or via the diversion route above.

- ii. prohibit all southbound vehicles from proceeding on the length of the A466 southbound carriageway that extends from a point 37 metres southeast of the centre point of Highbeech Roundabout to a point 75 metres southeast of the centre point of that roundabout.

The alternative route for all traffic wishing to exit the roundabout southbound will be eastbound on the A48 Newport Road and continue via the diversion route above.

It is expected that the temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight between 20:00 hours and 06:00 hours from 7 May 2018 until 11 May 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig dros dro/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government